Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Ymgynghoriad – gosod amserlenni i landlordiaid tai cymdeithasol ymateb i adroddiadau o beryglon sy'n cael effeithiau sylweddol ar iechyd.

Dyddiad cyhoeddi: 01 Ebrill 2025
Camau i'w cymryd: 20 Mehefin 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.
OGL © Hawlfraint y Goron

**Trosolwg**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar newidiadau arfaethedig i sicrhau bod landlordiaid cymdeithasol yn gweithredu'n brydlon ar beryglon iechyd yn y cartref. Mae'n cynnig llinellau amser clir i landlordiaid ymchwilio i'r materion hyn a mynd i'r afael â hwy ar ôl iddynt gael adroddiad amdanynt yn ogystal â mecanwaith adrodd i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd.

**Sut i ymateb**

Dylech ymateb i'r ymgynghoriad hwn, a fydd ar agor am 12 wythnos, drwy ateb y cwestiynau ar ddiwedd y ddogfen hon.

Gallwch gyflwyno ymatebion mewn nifer o ffyrdd:

E-bost: HousingConditons@llyw.cymru

Drwy’r post: Tîm Rheoleiddio Tai
Rheoleiddio a Strategaeth Tai
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Wrth ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu’n cynrychioli barn sefydliad.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o’r ddogfen hon ar gael ar gais.**

**Manylion cyswllt**

Tîm Rheoleiddio Tai
Rheoleiddio a Strategaeth Tai
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: HousingRegulation@llyw.cymru

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb y byddwch yn ei anfon atom yn cael ei ddarllen yn ei gyfanrwydd gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau pellach. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith dadansoddi ar ymatebion i ymgyngoriadau, mae'n bosibl y bydd trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) yn cael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwnnw. Dim ond o dan gontract y gwneir unrhyw waith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn cynnwys gofynion llym ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, yna caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch fel arall yn cael eu cadw am dair blynedd fan bellaf.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawl:

- i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch ac i'w gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (mewn rhai amgylchiadau)
- i ofyn i'ch data gael eu 'dileu' (mewn rhai amgylchiadau)
- i gludadwyedd data (mewn rhai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a sut mae'n cael ei defnyddio, neu er mwyn arfer eich hawliau o dan y GDPR, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:
Swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

**Rhagair gan y Gweinidog**

Mae marwolaeth drasig Awaab Ishak wedi tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau amodau byw diogel ac iach i bob tenant. Ni ddylai unrhyw un orfod dioddef canlyniadau dinistriol byw mewn amgylchedd sy'n bygwth eu hiechyd a'u llesiant. Mae colli Awaab yn ein hatgoffa bod yn rhaid i ni wneud mwy i ddiogelu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed a sicrhau bod ein stoc dai yn cyrraedd y safonau uchaf posibl.

Mewn ymateb i'r drasiedi hon, rydym yn ymgynghori ar atodiad i Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Rydym yn cynnig pennu rheol(au) mewn perthynas ag ymateb landlordiaid cymdeithasol i leithder, llwydni a pheryglon eraill. Bydd hyn yn darparu tryloywder a chysondeb o ran dull landlordiaid cymdeithasol o ddelio â pheryglon a allai gael effaith sylweddol ar iechyd pobl mewn tai cymdeithasol ledled Cymru. Credaf fod gan bawb yr hawl i fyw mewn cartref diogel ac iach. Rhaid iddo fod yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol ddarparu lefel y sicrwydd y dylai tenantiaid, rheoleiddwyr a byrddau ei ddisgwyl, yn gwbl briodol, fel yr hyn sy'n arferol, gan sicrhau bod landlordiaid yn cymryd camau prydlon ac effeithiol ar beryglon yn y cartref, gan gynnwys lleithder a llwydni.

**Y cefndir**

Roedd modd osgoi marwolaeth ofnadwy Awaab Ishak yn llwyr. Mae colli plentyn bob amser yn ddinistriol - dim ond dwy flwydd oed oedd Awaab pan fu farw ym mis Rhagfyr 2020, oherwydd iddo ddod i gysylltiad hir â llwydni yn y tŷ cymdeithasol roedd ei deulu yn ei rentu oddi wrth Rochdale Boroughwide Housing. Er gwaethaf ple dro ar ôl tro gan ei rieni am yr amodau byw peryglus, methodd y landlord nid yn unig â mynd i'r afael â'r mater ond hefyd, yn annheg, rhoddodd y bai ar y teulu am y llwydni peryglus.

Yn dilyn adroddiad y crwner i'r drasiedi, ysgrifennodd y Gweinidog Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at bob landlord cymdeithasol yng Nghymru yn eu hatgoffa bod cartref gweddus, saff a diogel yn hanfodol i lesiant pobl ac mai busnes a chyfrifoldeb creiddiol landlord cymdeithasol yw cadw tenantiaid yn ddiogel yn eu cartrefi.

Fe wnaethom ddilyn hyn gydag ymarfer sicrwydd manylach a arweiniodd at ddiweddariad sicrwydd. Mae hyn yn hyrwyddo dysgu a gwella gydag enghreifftiau o arferion cyfredol a ddefnyddir gan wahanol landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru i sicrhau diogelwch a llesiant tenantiaid. Roedd hi'n amlwg o'r ymarfer yma bod pennu maint y broblem mewn tai cymdeithasol yng Nghymru yn heriol. Gan gydnabod hyn, rydym wedi cynnwys cais newydd am ddata ar yr arolwg rheoleiddio chwarterol ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig mewn perthynas ag achosion o leithder a llwydni a diffyg atgyweirio.

Er eu bod yn cydnabod bod y cyd-destun yn wahanol yng Nghymru, roedd Gweinidogion Cymru hefyd yn cefnogi sefydlu grŵp rhanddeiliaid i benderfynu ar yr hyn gellir ei ddysgu o'r Adolygiad Tai Cymdeithasol Gwell (BSHR) a gynhaliwyd yn Lloegr yn 2022. Canfu dadansoddiad y grŵp rhanddeiliaid fod deddfwriaeth, polisi a mentrau sylweddol presennol sy'n gosod fframwaith cadarn i leihau risgiau

sy'n ymwneud â materion lleithder a llwydni difrifol a diffyg atgyweirio yn gyffredinol. Awgrymodd y grŵp hefyd y dylai'r cyd-destun ar gyfer unrhyw waith yn y dyfodol ymwneud yn ehangach â "Pheryglon" yn hytrach na mathau penodol o berygl.

Daeth y grŵp i'r casgliad, er bod fframwaith polisi, deddfwriaethol a rheoleiddiol sylweddol ar waith, ynghyd â gweithgarwch presennol a wneir gan landlordiaid, ei bod yn amlwg bod cyfleoedd i wella a datblygu i wneud yn siŵr bod y canlyniadau gorau yn cael eu sicrhau i denantiaid a bod y risg i'w hiechyd a'u diogelwch yn cael ei leihau.

Rydym wedi ceisio mesur graddfa'r broblem gan ddefnyddio'r data ychwanegol yr ydym wedi'i gasglu ar achosion o leithder, llwydni a diffyg atgyweirio. Mae'r data cychwynnol yn dangos bod nifer yr achosion yn parhau i gynyddu'n gyffredinol, ond yr hyn nad oes gennym yw unrhyw arwydd ar draws y sector o ran pa mor gyflym y mae landlordiaid cymdeithasol yn ymchwilio i adroddiadau, a pha mor gyflym y mae unrhyw atgyweiriadau neu gamau unioni angenrheidiol yn cael eu dechrau. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwneud cynigion, gyda'r nod o wella tryloywder o ran ymateb landlordiaid cymdeithasol i leithder a llwydni a pheryglon eraill.

Gwnaeth y grŵp hefyd gynnig i ddatblygu adnodd hyfforddi, gan ddod ag arferion da ynghyd o Gymru a'r DU a thynnu ar fentrau a phrofiad o sectorau eraill (e.e. Iechyd Cyhoeddus Cymru) i helpu i alluogi a sicrhau bod landlordiaid yn ymateb i beryglon sydd â chanlyniadau iechyd difrifol posibl mewn modd priodol ac effeithiol.

**Y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS)**

Mae'r System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS) yng Nghymru yn offeryn asesu risg sy'n seiliedig ar iechyd ar gyfer gwerthuso amodau tai. Mae'r system yn gweithio drwy werthuso'r risg bosibl o niwed i feddiannydd gwirioneddol neu bosibl sy'n gysylltiedig â'i amgylchedd byw ac mae'n fodd i raddio difrifoldeb unrhyw berygl a nodir. Mae HHSRS yn nodi ac yn asesu 29 o wahanol fathau o beryglon a allai niweidio preswylwyr mewn eiddo preswyl. Mae'r peryglon hyn wedi'u grwpio'n bedwar prif gategori: ffisiolegol (sy'n cynnwys lleithder a llwydni), seicolegol, amddiffyniad rhag haint, ac amddiffyniad rhag damweiniau. Mae pob perygl yn cael ei sgorio yn seiliedig ar y tebygolrwydd o ddigwydd a difrifoldeb ei effaith bosibl. Mae gan awdurdodau lleol y pŵer i ymyrryd pan fônt o'r farn bod amodau tai yn annerbyniol, ar sail effaith peryglon iechyd a diogelwch ar y preswylydd posibl mwyaf agored i niwed.

**Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 (SATC23)**

Mae SATC23 yn anelu at sicrhau bod pob tŷ cymdeithasol yng Nghymru yn cyrraedd safonau penodol. Cyhoeddwyd diweddariad i'r safon ym mis Ebrill 2024 i adlewyrchu newidiadau yn y ffordd y mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn teimlo am eu cartrefi. Mae SATC23 yn rhan hanfodol o strategaeth Llywodraeth Cymru i wella ansawdd tai, lleihau tlodi tanwydd, a chyfrannu at nodau hinsawdd y wlad. Mae hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad ehangach i wella ansawdd bywyd tenantiaid

tai cymdeithasol yng Nghymru. Mae SATC2023 yn sefydlu safonau gofynnol ar gyfer gwahanol agweddau ar dai, gan gynnwys sut mae HHSRS yn cael ei defnyddio i asesu nifer o elfennau yn y safon.  Er enghraifft, mae elfen 1b o'r safon yn nodi bod yn rhaid i gartrefi fod yn rhydd rhag lleithder.

**Y cynnig**

Mae Gweinidogion Cymru yn ymgynghori ar bennu rheol a fydd yn rhan o SATC23 mewn perthynas ag ymateb landlordiaid cymdeithasol i leithder, llwydni a pheryglon eraill, fel y'u diffinnir yn y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS). Y bwriad yw y bydd y rheol yn ei gwneud yn ofynnol i bob landlord cymdeithasol gyhoeddi amseroedd ymateb ac adrodd ar berfformiad fel rhan o ffurflen cydymffurfio SATC.

**Diben**

Gwella canlyniadau i denantiaid drwy osod disgwyliadau clir ynghylch gwasanaethau sy'n gwella tryloywder o ran ymatebion landlordiaid i leithder a llwydni a pheryglon eraill a sicrhau bod yr wybodaeth ar gael i wella gwaith craffu ac atebolrwydd drwy gysylltu'r safonau â chydymffurfio â SATC23.

**Effaith bosibl y cynnig**

<u>Effeithiau ar Iechyd a Llesiant</u>

Bydd y cynnig hwn yn gwella iechyd tenantiaid yn sylweddol drwy fynd i'r afael â lleithder a llwydni, sy'n gwaethygu cyflyrau anadlol fel asthma a broncitis. Gall cysylltiad hir â lleithder a llwydni achosi alergeddau, yn enwedig mewn plant a'r henoed. Bydd yn ofynnol i landlordiaid ddatrys y materion hyn mewn modd amserol, gan wella systemau awyru ac inswleiddio ar gyfer cartrefi iachach. Bydd hyn yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau gofal iechyd ac yn lleihau problemau iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â thai gwael. Yn ogystal, mae'n hyrwyddo tegwch drwy amddiffyn teuluoedd incwm isel, agored i niwed rhag peryglon iechyd yr amgylchedd.  Mae'r manteision iechyd posibl i denantiaid yn cael eu lluosi gan y pwyslais ychwanegol ar draws yr holl beryglon a restrir yn yr HHSRS.

<u>Effeithiau Economaidd</u>

Mae gan landlordiaid cymdeithasol gyfrifoldeb eisoes i gynnal a chadw eu cartrefi o dan ddeddfwriaeth amrywiol, ac felly ni ddylid ystyried bod y gofyniad i fynd i'r afael â pheryglon yr adroddir amdanynt mewn modd amserol yn rhwymedigaeth ychwanegol i landlordiaid.

O safbwynt y tenant, gall gwell amodau tai arwain at fanteision economaidd sylweddol, yn enwedig drwy gostau ynni is. Mae lleithder a llwydni yn aml yn symptomau o inswleiddio gwael a systemau gwresogi annigonol, sy'n achosi i gartrefi golli gwres yn gyflymach, gan arwain at filiau ynni uwch. Ar ben hynny, mae cartrefi iachach yn golygu bod llai o ddiwrnodau yn cael eu colli o'r gwaith neu'r ysgol oherwydd salwch, a all arwain at fwy o gynhyrchiant economaidd a llai o absenoldeb a chyrhaeddiad addysgol gwell. Yn ogystal, bydd tenantiaid yn arbed ar y costau a'r amser a gollir i reoli cyflyrau iechyd a achosir neu a waethygir gan amodau tai gwael.

Effeithiau ar yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Mae mynd i'r afael â'r peryglon yn gwella cynaliadwyedd amgylcheddol drwy hyrwyddo'r gwaith o gynnal amodau tai iach. Mae nodi a lliniaru peryglon fel lleithder ac awyru annigonol yn annog arferion effeithlon o ran ynni, fel inswleiddio priodol a systemau gwresogi effeithiol. Mae'r mesurau hyn nid yn unig yn gwella ansawdd aer dan do ond hefyd yn lleihau'r defnydd o ynni, gan arwain at allyriadau carbon is. Mae mynd i'r afael â diffygion strwythurol hefyd yn cefnogi hirhoedledd adeiladau. Mae hyn yn cefnogi gwaith rheoli stoc tai cymdeithasol yn gynaliadwy, a fydd yn cyfrannu at amcanion lleihau carbon.

Effeithiau Cymdeithasol ac Effeithiau ar Gydraddoldeb
Bydd y rheol arfaethedig yn lleihau anghydraddoldebau tai drwy wella'r amodau ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol difreintiedig, gan gynnwys teuluoedd incwm isel, yr henoed, aelwydydd o gymunedau ethnig leiafrifol ac unigolion ag anableddau. Mae'r grwpiau hyn yn wynebu risgiau iechyd uwch o leithder, llwydni a pheryglon eraill. Drwy ddal landlordiaid yn atebol am atgyweiriadau cyflym, bydd y rheol yn amddiffyn poblogaethau agored i niwed, yn enwedig plant a'r henoed, rhag salwch anadlol a straen. Bydd sicrhau gwaith cyweirio amserol yn creu cartrefi mwy diogel ac iachach ac yn hyrwyddo safonau tai mwy cyfartal.

**Ymgynghoriad**
Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn rhanddeiliaid ar sut y gellir llunio'r rheol i sicrhau ei bod yn cyflawni'r bwriadau polisi a amlinellir uchod. Bydd geiriad terfynol y rheol yn cael ei lywio gan yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae 29 o beryglon rhagnodedig wedi'u nodi yn Atodlen 1 o Reoliadau System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (Cymru) 2006 fel y'u rhestrir isod:

Mae'r 29 o beryglon a restrir o dan y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai fel a ganlyn:
*1. Lleithder a thyfiant llwydni*
*2. Oerfel gormodol*
*3. Gwres gormodol*
*4. Asbestos a ffibrau mwynau a weithgynhyrchwyd*
*5. Bioladdwyr*
*6. Carbon monocsid a chynhyrchion tanwydd hylosgi*
*7. Plwm*
*8. Ymbelydredd*
*9. Nwy tanwydd nas hylosgwyd*
*10. Cyfansoddion organig anweddol*
*11. Gorboblogi a gofod*
*12. Tresbaswyr yn dod i mewn*
*13. Goleuo*
*14. Sŵn*
*15. Hylendid domestig, pla a sbwriel*
*16. Diogelwch bwyd*
*17. Hylendid personol, carthffosiaeth a draeniau*
*18. Cyflenwad dŵr*
*19. Cwympo yn gysylltiedig â baddonau etc.*
*20. Cwympo ar arwynebau gwastad etc.*
*21. Cwympo ar risiau etc.*
*22. Cwympo rhwng lefelau*

*23. Peryglon posibl gyda thrydan*
*24. Tân*
*25. Fflamau, arwynebau poeth etc.*
*26. Taro yn erbyn neu fynd yn sownd*
*27. Ffrwydradau*
*28. Safle amwynderau a'u gweithrediad etc.*
*29. Dymchwel strwythurol ac elfennau'n disgyn*

Cwestiwn 1 – A ddylai'r rheol gwmpasu pob perygl a nodir yn Atodlen 1 o Reoliadau System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (Cymru) 2006?

- Pob perygl
- Arall – nodwch pa rai o'r 29 o beryglon y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai rydych chi'n meddwl y dylai eu cynnwys.

Sylwadau ychwanegol

Cwestiwn 2 – A ddylai'r rheol fod yn berthnasol dim ond pan fo perygl yn cyflwyno 'risg sylweddol' i iechyd neu ddiogelwch tenant unigol a phan fo'r perygl yn deillio o ddiffygion cydrannau adeiladu neu ddiffyg atgyweirio sydd o fewn rheolaeth y landlord?

- Pob perygl
- Pob perygl sy'n peri risg sylweddol.
- Pob perygl sy'n deillio o ddiffygion cydrannau adeiladu neu ddiffyg atgyweirio sydd o fewn rheolaeth y landlord.
- Pob perygl sy'n peri risg sylweddol ac o ddiffygion cydrannau adeiladu neu ddiffyg atgyweirio o fewn rheolaeth y landlord.
- Arall

Sylwadau Ychwanegol

Cwestiwn 3 – Os ydych chi'n credu y dylai'r rheol fod yn berthnasol dim ond os bydd “risg sylweddol i iechyd” yn bresennol, sut y dylid penderfynu ar y “risg sylweddol”?

| |
|---|
| |

Cwestiwn 4 – A ddylai'r rheol nodi amserlen gyffredin ar gyfer ymchwilio ac unioni sy'n berthnasol i holl landlordiaid cymdeithasol Cymru neu ganiatáu i amserlenni gael eu cytuno yn lleol gyda thenantiaid yn dilyn ymgynghoriad gan y landlord.

- Amserlen gyffredin sy'n berthnasol i holl landlordiaid cymdeithasol Cymru.
- Dylai pob landlord sefydlu amserlenni lleol y cytunwyd arnynt gyda thenantiaid yn dilyn ymgynghoriad.
- Arall

Sylwadau Ychwanegol

Cwestiwn 5 – Yn eich barn chi, beth fyddai'n amser rhesymol (mewn diwrnodau calendr) i ymchwilio i berygl yr adroddir amdano?

- 1 diwrnod
- 3 diwrnod
- 7 diwrnod
- 14 diwrnod
- Arall

Sylwadau ychwanegol

Cwestiwn 6 – Os yw'r rheol yn cael ei rhoi ar waith i beryglon sy'n peri 'risg sylweddol' yn unig, a ydych chi'n cytuno felly y dylid categoreiddio holl waith adfer fel atgyweiriadau brys at ddiben amseroedd cwblhau targed?

Ydw/Nac ydw

Sylwadau Ychwanegol

Cwestiwn 7 – Os yw'r rheol yn cael ei rhoi ar waith i bob perygl, nid dim ond y rhai sy'n peri 'risg sylweddol', a ydych chi'n credu y dylai fod diffiniad cyffredin o'r mathau a natur y mesurau unioni perygl y dylid eu trin fel rhai brys, neu a ddylai landlordiaid cymdeithasol Cymru gytuno yn lleol gyda thenantiaid yn dilyn ymgynghoriad gan y landlord.

- Diffiniad cyffredin sy'n berthnasol i holl landlordiaid cymdeithasol Cymru.
- Dylai pob landlord sefydlu diffiniadau lleol y cytunwyd arnynt gyda thenantiaid yn dilyn ymgynghoriad.
- Arall

Sylwadau Ychwanegol

Cwestiwn 8 – Unwaith y bydd ymchwiliad wedi'i gwblhau, os na ellir unioni'r perygl o dan dargedau atgyweirio brys arferol, a ydych yn cytuno y dylai'r tenant gael cynllun ysgrifenedig sy'n manylu ar y trefniadau a wneir i reoli'r risgiau i'r tenantiaid hyd nes y byddant wedi cael eu hunioni'n llawn ynghyd â chyswllt diffiniedig.

Ydw/Nac ydw

Sylwadau Ychwanegol

Cwestiwn 9 – Os ydych chi'n cytuno y dylid darparu cynllun unioni, beth fyddech chi'n ei ystyried yn amser rhesymol (mewn diwrnodau calendr) i roi copi o'r cynllun unioni i'r tenant?

1 diwrnod
3 diwrnod
7 diwrnod
14 diwrnod
Arall

Sylwadau ychwanegol

Cwestiwn 10 – A ddylai'r rheol hefyd ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol gasglu ac adrodd ar fodlonrwydd tenantiaid ag ymateb eu landlordiaid i'w cwyn am berygl a chydag unrhyw waith adfer a wnaed wedi hynny i unioni'r perygl?

| |
|---|
| Dylai/Na ddylai<br><br>Sylwadau Ychwanegol |

| |
|---|
| Cwestiwn 11 – **Mae'r cwestiwn hwn wedi'i anelu'n benodol at landlordiaid cymdeithasol.** Gan ystyried eich polisi a'ch gweithdrefnau presennol mewn perthynas â Pheryglon ac atgyweiriadau eraill, a ydych chi'n credu y bydd y rheol arfaethedig yn arwain at unrhyw oblygiadau sylweddol o ran adnoddau ychwanegol?<br><br>Sylwadau Ychwanegol |

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?

| |
|---|
| |

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| **Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad** | Eich enw: |
| | Sefydliad (os yw’n berthnasol): |
| | Ai landlord ydych chi? |
| | Ai tenant ydych chi? |
| | Arall? |
| | Cyfeiriad e-bost / rhif ffôn: |
| | Eich cyfeiriad: |
| | Mae'n bosibl y caiff ymatebion i ymgyngoriadau eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch y blwch ☐ |